

PRIFFYRDD, CYMRU

2019 RHIF 1

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (HEOL Y PLAS, LLANTARNAM, CWMBRÂN) 2019

Gwnaed 2 Ionwar 2019

Yn dod i rym 7 Ionawr 2019

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. —(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Heol y Plas, Llantarnam, Cwmbân) 2019 a daw i rym ar 7 Ionawr 2019.

(1) Yn y Gorchymyn hwn;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y planiau a adnewwyd" ("*the deposited plans*") yw'r planiau sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Heol y Plas, Llantarnam, Cwmbân) 2019" (Plan A a Phlan B) sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

Cau Priffyrdd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 o'r Gorchymyn hwn mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y planiau a adnewwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r priffyrdd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 18 Ebrill 2018 o dan y cyfeirnod 18/P/0128/FUL, ac ar 7 Medi 2018 o dan y cyfeirnod 18/P/0260/FUL ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn

3.

(1) 1990 p. 8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19), a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

HIGHWAYS, WALES

2019 NO. 1

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (GRANGE ROAD, LLANTARNAM, CWMBRAN) ORDER 2019

Made 2 January 2019

Coming into Force 7 January 2019

The Welsh Ministers, in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(1), make this Order.

Title, Commencement and Interpretation

1.-(1) The title of this Order is the Stopping Up of Highways (Grange Road, Llantarnam, Cwmbân) Order 2019 and it comes into force on 7 January 2019.

(2) In this Order;

"the Council" ("*y Cyngor*") means the Council of the County Borough of Torfaen;

"the deposited plans" ("*y planiau a adnewwyd*") means the plans entitled "The Stopping Up of Highways (Grange Road, Llantarnam, Cwmbân) Order 2019" (Plan A and Plan B) which accompany this Order;

"the developer" ("*y datblygwr*") means the person carrying out the development for which the planning permission has been granted; and

"the 1990 Act" ("*Deddf 1990*") means the Town and Country Planning Act 1990.

Stopping Up

2. Subject to articles 3, 4, 5, 6 and 7 of this Order the Welsh Ministers authorise the stopping up of the lengths of highways described in Schedule 1 to this Order and shown by zebra hatching on the deposited plans. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permissions granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council

(1) 1990 c. 8; section 247 was amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Priffyrdd Newydd

4. Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y darnau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, ac mae'r priffyrdd hyn, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(2), i fod yn briffyrdd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol amdanynt.

Priffyrdd y Gwneir Gwelliannau Iddynt

5. Rhaid gwneud, er boddhad rhesymol y Cyngor, gwelliannau i'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â chroeslinellau ar y planiau a adneuwyd, ac mae'r priffyrdd hyn, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980, i fod yn briffyrdd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol amdanynt.

Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffyrdd

6. Ni chaniateir cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:-

- (a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darnau o briffordd i'w cau;
- (b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r darnau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;
- (c) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r darnau o briffordd y gwneir gwelliannau iddynt a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;
- (d) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r darn o briffordd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; ac
- (e) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b), (c) a (d) wedi eu bodloni.

on 18 April 2018 under reference number 18/P/0128/FUL and on 7 September 2018 under reference number 18/P/0260/FUL and described in Schedule 4 to this Order.

New Highway

3. There will be created, to the reasonable satisfaction of the Council, the new lengths of highway described in Schedule 2 to this Order and shown by stipple marking on the deposited plan, which are to be highways maintainable at public expense for the purposes of the Highways Act 1980(2) and the Council is to be the highway authority responsible for them.

Improved Highway

4. There will be improvements made, to the reasonable satisfaction of the Council, to the lengths of highway as described in Schedule 3 to this Order and shown by cross hatching on the deposited plans, which are highways maintainable at the public expense for the purposes of the Highways Act 1980(2) and the Council is to be the highway authority responsible for them.

Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up

5. The lengths of highway described in Schedule 1 to this Order must not be stopped up until:-

- (a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the lengths of highway are to be stopped up;
- (b) the developer has provided the new lengths of highway described in Schedule 2 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;
- (c) the developer has provided the improved lengths of highway described in Schedule 3 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;
- (d) the development described in Schedule 4 to this Order has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the length of highway to allow the development to proceed; and
- (e) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a), (b), (c) and (d) are satisfied.

Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr

7. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darnau o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Os na fydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Ionawr 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 (Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darnau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o Heol y Plas, ac eithrio'r rhan fwyaf o'r droetfordd, o'i phen gogleddol hyd at bwynt 20 metr i'r gogledd o fynedfa Safle Meritor, Llantarnam, Cwmbrân sy'n mesur 298 o fetrau yn y man hiraf a 7.6 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sef y safle bws a rhan o'r droetfordd ar ochr ddwyreiniol Heol Tyddewi, Llantarnam, Cwmbrân, sy'n mesur 70 o fetrau yn y man hiraf a 6.4 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Statutory Undertakers and Providers

6. Where immediately before the lengths of highway are stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Duration of this Order

7. If the development described in Schedule 4 to this Order has not begun within the relevant period specified in Part 3 of the 1990 Act as being the duration of the planning permission, or the permission is revoked before the end of that period, this Order ceases to have effect upon the cessation of the planning permission.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated 2 January 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

Disgrifiad o'r darnau o briffordd newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sydd i ddod yn rhan o'r droetffordd gyfagos at y safle bws newydd ar Heol Tyddewi i'r gorllewin o ben gogleddol Heol y Plas, Llantarnam, Cwmbrân sy'n mesur 19.5 o fetrau yn y man hiraf a 2 fetr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sydd i ddod yn safle bws newydd ar Heol Tyddewi i'r gorllewin o ben gogleddol Heol y Plas, Llantarnam, Cwmbrân sy'n mesur 52 o fetrau yn y man hiraf a 4 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'D' iddo ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd wrth gyffordd Heol y Plas, a'r ffordd fynediad i safle Meritor, Cwmbrân sy'n mesur 34.2 o fetrau yn y man hiraf a 6.6 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'E' iddo ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r darnau o briffordd y gwneir gwelliannau iddynt sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o'r droetffordd gyfagos at y safle bws newydd ar Heol Tyddewi i'r gorllewin o ben gogleddol Heol y Plas, Llantarnam, Cwmbrân sy'n mesur 39.5 o fetrau yn y man hiraf a 1.9 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'F' iddo ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o'r droetffordd o'r enw Heol y Plas i'r gogledd-ddwyrain o safle bws Heol Tyddewi, ac i'r gorllewin o hen Safle Meritor, Llantarnam, Cwmbrân, sy'n mesur 7 metr yn y man hiraf a 2.5 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'G' iddo ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o'r droetffordd o'r enw Heol y Plas i'r de-ddwyrain o safle bws Heol Tyddewi, ac i'r gorllewin o hen Safle Meritor, Llantarnam, Cwmbrân, sy'n mesur 10.6 o fetrau yn y man hiraf a 2.6 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'H' iddo ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 4

Y Datblygiad

Adeiladu ffordd fynediad a choleg chweched dosbarth arfaethedig a gwaith cysylltiedig ar hen safle Meritor, Heol y Plas, Llantarnam.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (HEOL Y PLAS, LLANTARNAM, CWMBRÂN) 2019

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“y Ddeddf”) i awdurdodi cau’r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Hysbysiad hwn, i ddarparu ar gyfer y darnau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Hysbysiad hwn, ac i wella’r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i’r Hysbysiad hwn.

Nid awdurdodir cau’r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i’r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Heol y Plas, Llantarnam, Cwmbrân) 2019 (“y Gorchymyn”), yn peidio â chael effaith os daw’r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â’r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o’r Gorchymyn a’r planiau a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn swyddfa Llyfrgell Cwmbrân, Tŷ Gwent, Sgwâr Gwent, Cwmbrân NP44 1XQ yn ystod oriau swyddfa arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o’r cyfeiriad isod gan ddyfynnu’r cyfeirnod qA1355079.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau’r Ddeddf; neu
 - b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;
- o fewn 6 wythnos i 7 Ionawr 2019, wneud cais i’r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau anstatudol/ Trafnidiaeth/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: gorchymynion cau/ 2019).

Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn

**oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 (Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darnau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o Heol y Plas, ac eithrio'r rhan fwyaf o'r droetffordd, o'i phen gogleddol hyd at bwynt 20 metr i'r gogledd o fynedfa Safle Meritor, Llantarnam, Cwmbrân sy'n mesur 298 o fetrau yn y man hiraf a 7.6 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sef y safle bws a rhan o'r droetffordd ar ochr ddwyreiniol Heol Tyddewi, Llantarnam, Cwmbrân, sy'n mesur 70 o fetrau yn y man hiraf a 6.4 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r darnau o briffordd newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sydd i ddod yn rhan o'r droetffordd gyfagos at y safle bws newydd ar Heol Tyddewi i'r gorllewin o ben gogleddol Heol y Plas, Llantarnam, Cwmbrân sy'n mesur 19.5 o fetrau yn y man hiraf a 2 fetr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sydd i ddod yn safle bws newydd ar Heol Tyddewi i'r gorllewin o ben gogleddol Heol y Plas, Llantarnam, Cwmbrân sy'n mesur 52 o fetrau yn y man hiraf a 4 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'D' iddo ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd wrth gyffordd Heol y Plas, a'r ffordd fynediad i safle Meritor, Cwmbrân sy'n mesur 34.2 o fetrau yn y man hiraf a 6.6 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'E' iddo ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 3

**Disgrifiad o'r darnau o briffordd y gwneir
gwelliannau iddynt sydd i'w darparu o dan y
Gorchymyn hwn**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o'r droetffordd gyfagos at y safle bws newydd ar Heol Tyddewi i'r gorllewin o ben gogleddol Heol y Plas, Llantarnam, Cwmbrân sy'n mesur 39.5 o fetrau yn y man hiraf a 1.9 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'F' iddo ar y plan a adnewyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o'r droetffordd o'r enw Heol y Plas i'r gogledd-ddwyrain o safle bws Heol Tyddewi, ac i'r gorllewin o hen Safle Meritor, Llantarnam, Cwmbrân, sy'n mesur 7 metr yn y man hiraf a 2.5 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'G' iddo ar y plan a adnewyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o'r droetffordd o'r enw Heol y Plas i'r de-ddwyrain o safle bws Heol Tyddewi, ac i'r gorllewin o hen Safle Meritor, Llantarnam, Cwmbrân, sy'n mesur 10.6 o fetrau yn y man hiraf a 2.6 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'H' iddo ar y plan a adnewyd.

ATODLEN 4

Y Datblygiad

Adeiladu ffordd fynediad a choleg chweched dosbarth arfaethedig a gwaith cysylltiedig yn hen Safle Meritor, Heol y Plas, Llantarnam, yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 18 Ebrill 2018 o dan y cyfeirnod 18/P/0128/FUL ac ar 7 Medi 2018 o dan y cyfeirnod 18/P/0260/FUL.